



Llais Y Derwent

Gwanwyn 2011

Papur Bro i Ddysgwyr Cymraeg Canolbarth Lloegr

Pris 25c

Newyddion

Mi gafodd Swydd Derby a chanolbarth Lloegr gaeaf digon llym eleni efo eira trwm Mis Rhagfyr, ond er gwaetha hynny cawson ni nifer da o bobl yn mynychu'r Gweithdai Cymraeg cyn ac ar ôl Nadolig. Roedd 11 ohonon ni yng Ngweithdy Mis Ionawr. Hefyd beth sy'n galonogol iawn yw nifer o ymholiadau oddi wrth bobl newydd sy'n cyrraedd trwy e-bost oherwydd cyhoeddusrwydd am y Cylch sy ar ein safle we a'r grŵp *Menter Iaith Lloegr* ar Facebook. Yr ydyn ni dal i ddefnyddio dulliau traddodiadol megis posteri a cherdyn post mewn ffenestr siop ond efallai mai dyfodol i'r Gymraeg yn dibynnu, yn rhanol o leiaf, ar y we. Yn y cyfamser mae'r cyfarfodydd y Cylch Dysgwyr Cymraeg yn Derby, y dosbarth Cymraeg yn Belper a'r Bore Coffi misol yn Nottingham wedi ailgychwyn ar ôl seibiant Gŵyl y Geni. Mi fydd taith cerdded i ddysgwyr yn cael ei drefnu ym Mis Mawrth.

Mae Cymdeithas Cymry Nottingham yn cynnal Noson Lawen ar Nos Sadwrn 14 o Fai, mi fysai hi'n dda pe bai nifer o berfformwyr newydd yn rhoi tro arni y tro'ma. Felly beth amdani? Ydych chi'n meddu ar dalent fel canu, adrodd neu ganu offeryn? Dyma gyfle arbennig i glywed ac i ddefnyddio'r iaith yn lleol heb deithio ar draws y ffin i Gymru.

Mae'r Cylch Dysgwyr Cymraeg Derby wedi rhoi gwahoddiad i'r rhaglen 'Pawb a'i Farn' i ddod draw i ganolbarth Lloegr ar gyfer y gyfres nesa, sef 2011-2012. Cawson ni ymateb oddi wrth Geraint Lewis Jones, cynhyrchydd y rhaglen eu bod nhw'n edrych ar ein cais o ddifri, ond bydd rhaid i ni ddarparu cynulleidfa o 80 o bobl sy'n medru siarad Cymraeg, felly os yr ydych chi mewn cysylltiad efo siaradwyr Cymraeg rhowch wybodaeth iddyn nhw a gofyn iddyn nhw i gysylltu â'r Llais Y Dderwent.

Son am Gymru, mi fydd Jonathan yn cyflwyno Sesiwn Dysgu Cymraeg y tu allan i Gymru yn Eisteddfod 2011 ar y cyd efo Neil Wyn Jones o Benbedw. Mae Neil yn arwain dosbarth Mynediad ym Mhenbedw ac yn ddysgwr profiadol a rhugl iawn. Mi fydd y Cyflwyniad ar Ddydd Mercher mae'n debyg, felly

os yr ydych chi'n meddwl am fynd i'r Eisteddfod eleni rhowch gefnogaeth i ni ym Maes D.

Dydd Calan a Serendipity

'Slawer dydd, pan oeddwn yn grwt bach yn byw ar fferm ger Llandeilo yn Sir Gaerfyrddin, dydd gwaith oedd Dydd Calan i fy rhieni fel pob dydd arall. Serch hynny byddai fy mrawd a finnau yn codi'n fore ar Ddydd Calan a throedio hi i rhai o'r ffermydd a'r tai cyfagos i gasglu calennig a chanu'r pennill bach syml

Blwyddyn newydd dda i chwi,

Ac i bawb sydd yn y ty,

Dyna yw'n dymuniad ni,

Blwyddyn newydd dda i chwi

Wedyn i lawr a ni i'r Ty Mawr, lle 'roedd y Cyrnol Powell yn byw gyda'i deulu. Fe oedd berchen ein fferm lle roedd fy nhad yn denant pryd hynny ac felly doedd dim dewis yn y mater. Rhaid oedd gwisgo yn deidi a wedi cael ein siarsio gan ein mam i fi-hafio'n weddus, fe ganem yr anerchiad Blwyddyn Newydd Dda a cael pishyn chwech yr un oddiwrth y Cyrnol. Roedd y Powelliaid yn perthyn i'r dosbarth hynny sy'n cael eu galw yn grachach. Am ryw rheswm roedd yn anobeithiol canu'r gân thrwyddi heb chwerthin; mwy drwy ofn a nerfusrwydd rwy'n credu na dim arall. Ofni gwneud traed moch o'r peth.

Wedyn byddem yn mynd lawr i'r pentre lle byddai y Llandeilo Hunt yn cyfarfod ar bob Ddydd calan. Roedd gweld y marchogion yn eu cotiau cochion a rhyw hanner gant o gwn

hela yn olygfa fythgofiadwy. Byddai'r coctiau coch yn cael glasiad neu ddau o rhywbeth cryf cyn i'r dorf a'r cwn ar ceffylau fynd ymaith i hela dros yr ardal. Byddai'r plant yn dilyn ar droed am beth amser cyn rhoi fyny a throi tuag adre. Er fod y mudiad i wrthwynebu hela braidd heb egino pryd hynny rwy'n falch i ddweud fod ein teulu ni ar ochr y cadnoid. Cysur oedd clywed drannoeth ar ôl Dydd Calan fod yr hela wedi bod yn anlwyddianus. Yn wir ni chlywais erioed fod y Llandeilo Hunt wedi medru cael gafael yn yr un cadno. Roedd y cadnoid yn rhy gyfrwys; os dywed Black Adder, "As cunning as the cunningest fox".

Eleni ar Ddydd Calan aeth y wraig a minnau ar daith gerdded fer ar rhan o gamlas Cromford ynghyd a Dysgwyr Cymraeg Derby. Efallai am fod y tywydd mor oer a garw, a pheth glaw hefyd, dim ond pump ohonom oedd yno, ond cawsom amser difyr wrth gerdded a sgwrsio 80% yn Gymraeg a 9% yn y iaith fain a gair neu ddau o Ladin! Wedyn cawsom bryd o fwyd yn caffisiop lyfrau ail-law Scarthin ym mhentre Cromford. Wrth edrych yn yr adran llyfrau hen (antiquarian books) digwyddais weld un llyfr Cymraeg, sef Geiriadur Charles. Geiriadur Beiblaidd yw hwnnw, rhyw fath o Concordance i ddefnyddio'r gair Saesneg, a gyhoeddwyd am y tro cyntaf yn 1705, er mae 1805 oedd dyddiad yr argraffiad ar y silff. Ar ôl pendroni ychydig, prynais y llyfr am £12. Yn awr os ydych am wybod pwy oedd Abednego neu ble roedd Rimmon rydych yn gwybod pwy i ofyn.

Gair bach neu ddau am Thomas Charles. Os ewch i'r Bala mae na gerflun mawr saith troedfedd o uwchder o farmor o flaen Capel y Methodistiaid yn y dre. Un o gewri'r mudiad Methodistiaid cynnar oedd Charles o'r Bala. Bu yn bregethwr, yn gyhoeddwr, yn awdur yn athro ac yn un o sylfaenwyr y Gymdeithas Feibl a'r S P C K: bu yn un o hoelion wyth y sefydliad yr ysgolion sul a hefyd yr ysgolion cylchynnol (circulating schools). Y fo, yn fwy na neb, a wnaeth cymaint i ddod a'r beiblau Cymraeg i afael teuluoedd cyffredin y werin yng Nghymru. Erbyn canol y 19ed ganrif roedd Beibl mawr ar fordydd parlwrau llawer o deuluoedd Cymru. Efallai fod hanes Mari Jones yn adnabyddus i chi. Hi oedd y groten 14 mlwydd oed a gerddodd o Abergynolwyn i'r Bala yn 1799 i brynnu Beibl oddiwrth Thomas Charles, taith o rhyw bump



ar ugain milltir.

Nawr am serendipidy; oes na air Cymraeg gwedwch; cyd-ddygwidiadau efallai. Wedi dod a'r geiriadur gartref gwelais fod nifer o doriadau (cuttings) allan o bapurau newydd a phapurau lleol yn rhydd rhwng rhai o ddalenni y gyfrol yn rhoi hanes angladdau a phriodasau etc wedi eu dyddio yn y 20au a 30au o'r ganrif ddiwethaf. Pwy a'u dododd yn y gyfrol. Perchennog cynt byd siwr. Ar gefn toriad hanes priodas yn 1935 roedd hanes rhyw bwyllgor yn Llanegryn, ger Tywyn yn Sir Feirionnydd a phwy oedd yn cadeirio'r pwyllgor ond y Parch Philip John Peregrine. Cefais fy syfrdannu am mai ewythr i mi oedd Philip John, a fu yn weinidog gyda'r Annibynnwyr yn Llanegryn am amser maith. Fe oedd gwr fy modryb Doli, chwaer fy nhad, a phan oeddwn yn blentyn arferem fynd ar ein gwyliau atynt yn y pedwardegau a'r pum degau cynnar i Lanegryn, fy mrawd a finne a fy chwaer hefyd, yn ddiweddarach, a chael amser braf. Rhyw awel fach o'r gorffennol yn llechu ar silff lyfrau yn Cromford. A dyna lle byddai wedi aros rwy'n ofni onibai i'r wraig a mi dderbyn gwahoddiad i fynd ar daith gerdded fer ar Ddydd Calan.

Pob hwyl i Ddysgwyr Derby. Daliwch ati. Mae'na gyfoeth yn yr iaith

Howell Price

Cymdeithas Cymry Nottingham

Cyfarfod Bore Coffi

'Popeth yn Gymraeg' Misol

i Gymry Cymraeg

Am fanylion cysylltwch a

Gwynne Davies ar

0115 925 9613



Mae'r gaeaf arno'n ni

Ble i fynd am ŵyl hwyr? Rhywle poeth, ble mae'r haul yn tywynnu yw dewis llawer o bobol. Mae 'na ddewision arall i ystyried. Efallai' rydych chi wedi anghofio'r aflonyddu yn y maes awyr achos mae'r perygl eich bod chi wedi brawychu? Mae'r proses yn un o 'brysiwch i aros'!

Dyma f'ateb i. Dodi dewisiad o ddillad yn y cerbyd a gyrru i'r gwesty Harbourmaster yn Aberaeron. Tref ddymunol gydag arfordir diddorol i fforio (archwilio). Mae pawb yn siarad Cymraeg, neu Saesneg, yn ôl eich dewis. Cofiwch i gymryd dillad ynysu hefyd!

Os ydych chi'n dihoeni am yr haul, 'dim problem' - mae haul a'r gwres tu fewn yr Harbourmaster! Ewch draw - fe fyddwch yn sicr o fwynhau!

David Phillips

Gweithdai Cymraeg Derby

Bob Mis, Bore Dydd Sadwrn

Pris £5.50 y sesiwn

9.30y.b. tan 12.30 y.p.

Tiwtor Elin Merriman

19-2-11, 19-3-11,

16-4-11,

21-5-11, 18-6-11

Am fanylion ffoniwch

01773 827513

Y Dyn Dieithr.

Roedd rhywbeth gwahanol am y dyn mae'n siwr, rhywbeth i maes o'r cyffredin. Cofiaf fel bachgen bach pedair blwydd oed yn gweld y dyn yn dod ar hyd y ffordd arw tuag at ein fferm anghysbell yn y cymoedd glo de Cymru.

Sylwais fod ei groen yn dywyllach nag arfer, gyda ôl heulwen gref arno ac roedd ei wisg yn wahanol, enwedig ei het. Bere efo ysbrigyn o ddeunydd fel mwydyn yn sefyll reit yn y canol ar y copa yr oedd!

Daeth e ar draws y ffordd fferm geffyl a throl ar gefn ei feic, a dyna hynny'n beth gwahanol hefyd; dyna tro cyntaf i mi weld y fath beth p'run bynnag.

Eto i gyd roedd ei feic yn wahanol o'i chymharu â beiciau yn mynd o gwmpas ein pentref, yn enwedig gan fod y teiars mor drwchus, a phopeth am y beic yn ymddangos mor drwm a chryf.

Roedd e'n siarad Cymraeg ond roedd hynny'n swnio'n wahanol, achos fod acen estronol gyda fe.

Rhywbeth arall oedd yn wahanol, arbennig, a hyd yn oed ryfeddol i mi, ac yn bendant i maes o'r cyffredin sef gorchuddai ei feic bron yn llwyr gyda winwns, nionod yn y gogledd, s'yn hongian mewn rheffynnau yma ac acw oddi wrth bob man!

A dyna fy mam yn ei gyfarch e fel 'Sioni Winwns' ac yn prynu dau reffyn o winwns oddi wrtho gan egluro i mi fod y dyn diarth wedi dod â'r winwns enwedig o felys yr holl ffordd dros y Môr Udd o Lydaw yn Ffrainc.

Viv Harris

Geirfa.

i maes o'r cyffredin - *out of the ordinary*

gyda ôl heulwen gref arno - *with the sign of strong sunshine on it*

bere efo ysbrigen o ddeunydd - *a beret with a sprig of material*

y fath beth p'run bynnag - *such a thing anyway*

y ffordd fferm geffyl a throl - *the horse and cart track*

ar gefn ei feic - *on his bike*

a hyd yn oed ryfeddol i mi - *and even wonderful to me*

gorchuddai ei feic bron yn llwyr - *his bike was just about completely covered*

hongian mewn rheffynnau - *hanging in strings*

yma ac acw oddi wrth bob man - *here and there off everywhere*

y dyn diarth - *the stranger (diarth is a colloquial form of dieithr)*

wedi dod â'r winwns - *had brought the onions*

dros y Môr Udd o Lydaw - *over the English Channel from Brittany*

Diwrnod i'r Brenin



Ar ddydd Sadwrn olaf ym Mis Ionawr ca-fodd Marilyn a finnau ddiwrnod i'r brenin yn cerdded bryniau a dyffrynnoedd rhostir Swydd Caer ger Leek efo a'n gyfaill Colin. Mae'nna ddarn o Swydd Caer, debyg o ran siâp i fraich, sy'n ymestyn i'r ucheldir Ardal y Peak dim yn bell o dafarn Y Gath a'r Ffidl uwchben Buxton, ac o fewn y darn o dir yma mae bryn Shuttingsloe yn sefyll.

Gadawon ni'r car mewn pentref bach o'r enw 'Wildboarclough' yn y dyffryn wrth droed Shuttingsloe' sy'n 1687 troedfeddi uwchben lefel y môr. Dyw hi ddim yn fryn enfawr ond mae hi'n sefyll ar ochr gorllewinol ucheldir ardal y Peak, ac felly mae'r golygfeydd ar draws tir gwastad Swydd Caer yn drawiadol. Pan mae'r tywydd yn ddigon clir mae hi'n bosib gweld Moel Famau ar y gorwel a mynyddoedd eraill gogledd Ddwyrain Cymru. Yn anffodus doedd hi ddim digon clir ar Ddydd Sadwrn i weld Cymru ond wnaethon ni weld Jodrell Bank, y telesgop radio enwog ar y tir gwastad tu draw i Macclesfield.

Roedd hi'n waith caled cerdded i fynni'r bryn ond cawson ni seibiant ar y copa a digon o amser i gael paned a rhywbeth i fwyta. Roedd hi'n ddiwrnod oer iawn efo ia ar raeadr y nentydd a phyllau dwr a hyd yn oed pibonwy yn hongian oddi wrth blanhigion rhedyn oedd yn tyfu mewn mannau cysgodol. Wedyn aethon ni ymlaen ar draws rhostir mawnog i goedwig Macclesfield ac wedyn yn ôl lawr y cwm i'r man cychwyn. Wedyn wnaethon ni deithio'n ôl ar draws y Peak i siop llyfrau Scarthin yn Cromford ble cawson ni ginio bach hwyr, sef cawl cartrefol a bara cartrefol hyfryd. Diwrnod gwych.

Jonathan Simcock

Cymru ar y We

Llyfrgell Genedlaethol Cymru: Drych Digidol: www.llgc.org.uk

Canolfan Y Celfyddydau Aberystwyth

www.aber.ac.uk/artscentre

Golwg: clychgrawn wythnosol

www.golwg.com

Prifysgol Cymru Coleg Bangor

<http://www.bangor.ac.uk>

Eisteddfod Genedlaethol Cymru

www.eisteddfod.org.uk

S4C Language Centre

<http://www.learnonS4.co.uk/home.php>

Bwrdd yr Iaith Gymraeg

www.bwrdd-yr-iaith.org.uk

Clwb Malu Cachu

<http://www.clwbmalucachu.co.uk/index.htm>

Canolfan Cymry Llundain

<http://www.londonwelsh.org>

Cymdeithas Cymreig Birmingham

<http://www.birminghamwelsh.org.uk/>

Cymrodorion Maesbedr

<http://www.users.global.net.co.uk/~scrol/pws/mapysafle.html>

Northwich Welsh Society

<http://freespace.virgin.net/usedto.be/index.html>

Clwb Clebran Bradford

<http://www.communicate.co.uk/brad/welshclwbclebran/>

Nant Gwrtheyrn Language Centre

<http://nantgwrtheyrn.org/DesktopDefault.aspx>

Cymru ar y ffôn

Popeth Cymraeg, Denbigh, North Wales

For free Welsh Language Courses 01745 812287

Sheffield & District Cambrian Society

Hon Sec. Dr G Daniels 0114 236 6301

Cymdeithas Cymry Nottingham

Gwynne Davies 0115 925 9613

Northwich Welsh Society

Gwili Lewis 01606 784438

Bradford and District St. David's Society

Secretary Mrs E Walker 01535 665829

Cymdeithas Gymreig Huddersfield

Sec Mrs Barbara Watkins 01706 817786

Menter Iaith Lloegr

Safle ar Facebook i'r rhai sy'n dysgu'r Gymraeg hyd a lled Lloegr.

**Cysylltu a Llais Y Derwent
trwy 01773 827513 neu anfon ebost i
dysgwyr5@virginmedia.com
neu gwelir**

www.derbywelshlearnerscircle.blogspot.com